# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 2 Mawrth 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

# (319)v2

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar ei adolygiad o Ddeisebau Cyhoeddus

(60 munud)

**NDM5981 William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar yr 'Adolygiad o Drefniadau Deisebau Cyhoeddus' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2016.

**Dogfennau Ategol**

[Adroddiad y Pwyllgor Deisebau]

[Llythyr gan y Llywydd at y Cadeirydd]

## 4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM5983 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at y ffaith bod nifer o ysbytai yng Nghymru wedi cael eu cau neu wedi wynebu colli gwasanaethau dros y blynyddoedd diwethaf.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru yn y dyfodol i warantu na fydd unrhyw ysbytai'n cael eu cau yn ystod y pumed Cynulliad.

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai Llywodraeth nesaf Cymru gychwyn a chyflwyno cynllun ar gyfer cynnydd sylweddol yn nifer y meddygon fel y gellir darparu gwasanaethau yn lleol.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru yn 2014 a oedd yn galw am 'ail-rymuso a bywiogi'r ysbyty gymunedol a gwasanaethau yn y gymuned' ac yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ddarparu mwy o wasanaethau iechyd mewn cymunedau ledled Cymru.

['Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru']

## 5 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM5984 Elin Jones (Ceredigion)**

1. Yn gresynu at y ffaith bod gan Gymru un o'r cyfraddau goroesi isaf ar gyfer canser yn y DU a'r UE.

2. Yn nodi bod amseroedd aros ar gyfer profion diagnostig yn annerbyniol o uchel ac yn sylweddol uwch nag yn Lloegr a'r Alban.

3. Yn gresynu at yr anghydraddoldeb o ran mynediad cleifion ledled Cymru i gyffuriau a thriniaethau canser.

4. Yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

a) gwella'r perfformiad mewn perthynas ag amseroedd aros diagnostig yn sylweddol, fel bod 95 y cant o'r bobl y mae eu meddyg teulu yn tybio bod canser ganddynt yn gallu cael diagnosis neu cadarnhad nad oes canser ganddynt o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cânt eu cyfeirio i gael eu profi;

b) cyflwyno cronfa triniaethau newydd i sicrhau ymagwedd genedlaethol tuag at fynediad i driniaethau i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at driniaethau yn seiliedig ar angen clinigol nid lle maent yn byw neu a ydynt yn bodloni meini prawf eithriadol; a

c) sicrhau bod pob claf canser yn cael mynediad at weithiwr allweddol, gan gasglu a chyhoeddi data yn rheolaidd i ddangos perfformiad yn erbyn y targed hwn.

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3:

'a rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU.'

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ym mhwynt 4b), dileu 'cyflwyno cronfa triniaethau newydd' a rhoi yn ei le 'ymestyn y gronfa technolegau iechyd i feddyginiaethau newydd'.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

'datblygu panel Cymru gyfan ar gyfer ceisiadau cyllido cleifion unigol i osgoi'r loteri cod post sy'n bodoli eisoes ar gyfer triniaethau canser yng Nghymru.'

**Gwelliant 4 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

'sefydlu gwasanaeth trin canser symudol cenedlaethol i atal teithiau yn ôl a blaen hir i gleifion sydd am gael mynediad i glinigau a thriniaeth cemotherapi'.

**Gwelliant 5 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

'sefydlu ymgyrch addysg gyhoeddus blynyddol i godi ymwybyddiaeth o achosion a symptomau canser'.

**Gwelliant 6 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

'darparu gwarant o apwyntiad dilynol fel bod pob claf yn cael ei weld o fewn chwe mis ar y mwyaf o ddiwedd ei gyfnod cychwynnol o driniaeth canser ac ymhellach yn galw am casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd i fonitro perfformiad yn erbyn y warant.'

**Gwelliant 7 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

'penodi eiriolwr dros gleifion canser i ddwyn Llywodraeth Cymru a byrddau iechyd lleol i gyfrif mewn perthynas â chyflawni cynlluniau cyflenwi canser cenedlaethol a lleol.'

## 6 Cyfnod pleidleisio

## 7 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM5863 Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**

Bwyd da i bawb: cyflawni'r nod arlwyo 'Bwyd am Oes' yn ysgolion Cymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 8 Mawrth 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 24 Chwefror 2016 i'w hateb ar 2 Mawrth 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw Llefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**1.** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysau staffio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(4)0701(HSS)**W**

**2.** Elin Jones (Ceredigion): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth? OAQ(4)0699(HSS)**W**

**3.** Sandy Mewies (Delyn): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y ddarpariaeth o gyfleusterau gofal iechyd sylfaenol yn y Fflint? OAQ(4)0704(HSS)

**4.** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd ymdrin ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau yng Nghymru? OAQ(4)0697(HSS)

**5.** Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran taliadau i bobl sydd â hemoffilia a heintiwyd gan waed halogedig? OAQ(4)0706(HSS)

**6.** Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd): Pa ddarpariaeth newydd a wnaed ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn ystod y pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)0696(HSS)**W**

**7.** Sandy Mewies (Delyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y niferoedd sydd wedi cael brechiadau yn erbyn y ffliw y gaeaf hwn? OAQ(4)0705(HSS)

**8.** Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfluniad gwasanaethau iechyd yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0691(HSS)

**9.** Gwenda Thomas (Castell-nedd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddosbarthiad arfaethedig y pecyn ariannu o £2 filiwn i gefnogi gofalwyr yng Nghymru dros y ddwy flynedd nesaf? OAQ(4)0693(HSS)

**10.** Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gwynion a wneir i fyrddau iechyd yng Nghymru? OAQ(4)0700(HSS)

**11.** Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ymestyn unrhyw raglenni brechu yng Nghymru? OAQ(4)0692(HSS)

**12.** Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau canser ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0702(HSS)

**13.** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed o ran gweithredu Rhaglen De Cymru? OAQ(4)0695(HSS)

**14.** Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar sganiau tomograffeg allyriant positron? OAQ(4)0703(HSS)

## Gofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

**1.** Janet Haworth (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am lefelau llythrennedd ledled Cymru? OAQ(4)0685(ESK)

**2.** Aled Roberts (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am lythyr cylch gorchwyl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer 2015-16? OAQ(4)0692(ESK)**W**

**3.** Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lythrennedd plant yng Nghymru? OAQ(4)0690(ESK)

**4.** David Rees (Aberafan): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu pynciau STEM mewn ysgolion? OAQ(4)0695(ESK)

**5.** Mark Isherwood (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn ariannu disgyblion ysgol yng Nghymru? OAQ(4)0684(ESK)

**6.** William Graham (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n cael cynigion diamod ar gyfer lleoedd prifysgol? OAQ(4)0696(ESK)

**7.** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg uwch yng Nghymru? OAQ(4)0686(ESK)

**8.** Gwyn Price (Islwyn): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod buddsoddiad yn ein hysgolion yn parhau i gynyddu? OAQ(4)0694(ESK)

**9.** Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â hyfforddi athrawon yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0683(ESK)

**10.** Mick Antoniw (Pontypridd): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am yr ardoll brentisiaethau? OAQ(4)0687(ESK)

**11.** Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys busnesau a diwydiant yn y broses o ddatblygu'r cwricwlwm cenedlaethol newydd? OAQ(4)0689(ESK)

**12.** Leanne Wood (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd darparu mynediad at ddewis addysgol i rieni? OAQ(4)0697(ESK)

**13.** Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ysgolion ffydd yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0682(ESK)

**14.** Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyfforddiant i bobl dros 50 oed yng Nghymru? OAQ(4)0691(ESK)

**15.** William Graham (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â lefelau absenoldeb mewn ysgolion cynradd? OAQ(4)0693(ESK)